# Cychwyn arni gydag Eco Church

Cynghorion ac awgrymiadau i'ch helpu i gychwyn arni a gwneud cynnydd

Gall eglwysi ddilyn sawl llwybr gwahanol wrth ddod at Eco Church: awydd i arbed arian trwy ostwng costau ynni, gofal am y bywyd gwyllt a welir yn y fynwent ac awydd i wella bioamrywiaeth, banc bwyd gweithredol a gwaith yn estyn allan i'r gymuned, pryder ynghylch argyfyngau'r hinsawdd a byd natur ac angerdd dros weithredu fel Cristnogion. Sut bynnag y 'cyrhaeddwch', lle da i gychwyn fyddai'r man lle mae eich eglwys ar hyn o bryd, a thyfu a datblygu o'r fan honno. Unwaith byddwch chi wedi cwblhau'r arolwg ar-lein, fe gewch ddarlun cliriach o'r meysydd lle mae eich eglwys gryfaf eisoes – neilltuwch amser i gydnabod hynny ac amlygu sut mae'r gweithredoedd hynny'n cyfrannu at Eco Church. Dyma ragor o awgrymiadau i'ch helpu i gychwyn arni a gwneud cynnydd gydag Eco Church.

1. Creu lleoedd i dyfu

   Gall dod i ddeall argyfyngau'r hinsawdd a byd natur a chreu'r cysylltiad ffydd a gweithredu gymryd amser i eglwysi, ac i unigolion. Bwriad Eco Church yw cwrdd phobl lle maen nhw, ac mae modd ei ddefnyddio i sbarduno gweithredu, gam wrth gam, er mwyn symud ymlaen. Fodd bynnag, elfen bwysig o Eco Church yw tyfu ar y cyd fel cymuned eglwys. Mae'n bwysig treulio amser yn dysgu, yn creu cysylltiadau, ac yn gwrando ar Dduw, ac fel eglwys, bydd angen i chi ystyried sut rydych chi'n creu lleoedd i wneud hynny; addoliad bore Sul, grwpiau bach, gwasanaethau arbennig, siaradwyr gwadd, sgyrsiau dros goffi. Cam cyntaf posibl fyddai myfyrio ar yr hyn sy'n agos at eich calon o ran y greadigaeth a'ch moment 'Aha!' chithau, a wnaeth i chi sylweddoli bod angen gweithredu dros Dduw, dros fyd natur a thros bobl, a hynny ar frys. Cofiwch fod pob un ohonom yn datblygu ein dealltwriaeth o ystyr gofal am y cread.

2. Cynnull tîm

   Gofalwch fod eraill o'ch cwmpas i'ch cefnogi, eich ysbrydoli a'ch galw i gyfrif! Gallai hynny'n ddatblygu'n bwyllgor neu'n strwythur arall yn y man, ond wrth gychwyn, efallai mai dau neu dri pherson yn unig fyddwch chi.
   Man cychwyn amlwg fyddai'r rhai sydd eisoes diddordeb mewn pethau 'gwyrdd', ond peidiwch 'i gyfyngu iddyn nhw. Os oes gennych chi weithiwr ieuenctid neu swyddog adeiladau, er enghraifft, gallwch chi eu cynnwys nhw hefyd. Fel y gwelwch, bydd Eco Church yn elwa o brofiadau amrywiol.

3. Cymryd perchnogaeth

   Mae arolwg Eco Church yn hunanasesiad i eglwysi ar draws llawer o wahanol enwadau a chyd-destunau. Bydd Eco Church yn edrych yn wahanol yn l cyd-destun yr eglwys (trefol, gwledig, maint y gynulleidfa, cyfleusterau, adeilad, sefyllfa ariannol, demograffeg – unrhyw ffactor o'r fath!). Rydyn ni'n eich annog i drin yr arolwg yn y ffordd fwyaf ddefnyddiol i'ch eglwys. Felly hyd yn oed os na fydd geiriad cwestiwn penodol yn cwmpasu eich amgylchiadau neu eich ymarfer yn union, mae'n iawn i chi ei ddehongli a'i ateb o bersbectif eich sefyllfa leol, cyhyd 'ch bod yn gwneud hynny'n ddidwyll, ac yn unol ag ysbryd cyffredinol y cwestiwn.

4. Gwneud ymrwymiad

   Mae cwestiwn cyntaf pob categori yn yr arolwg Eco Church yn gofyn i'ch eglwys gydnabod argyfyngau'r hinsawdd a byd natur a dangos ymrwymiad i weithredu. Gallai eich ymrwymiad gychwyn o ddatganiad syml fel hwn:

   'Rydyn ni'n cydnabod ac yn addysgu bod gofal am y cread a gweithredu i ymdrin ag argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn rhan annatod o ffydd, bywyd ac addoliad Cristnogol. Rydym wedi ymrwymo i ymateb i hynny trwy fod yn rhan o gynllun dyfarniadau Eco Church A Rocha UK.'

   Ceir nodiadau pellach am ymrwymiad yn y trosolwg o gategorïau'r arolwg ar ein tudalen adnoddau.

5. Rhoi cynnig arni

Rydyn ni bob amser yn annog eglwysi sydd heb gychwyn arolwg eto i 'roi cynnig arni'. Pan fyddwch chi'n llenwi'r arolwg Eco Church gyntaf byddwch chi'n gallu llenwi sawl adran, ond bydd angen 'canfod atebion' i lawer o bethau eraill. Fodd bynnag, gall cychwyn arni helpu i chwalu dirgelwch y broses a rhoi argraff gychwynnol i chi o'ch llwyddiant – efallai cewch eich siomi o'r ochr orau! Serch hynny, os byddwch chi'n teimlo eich bod yn cael eich llethu, rhannwch yr arolwg yn ddarnau llai, a chydnabod y mannau lle rydych chi eisoes yn gwneud cynnydd.

6. Sbarduno gweithredu

Defnyddiwch yr arolwg Eco Church yn sbardun ar gyfer gweithredu. Unwaith byddwch chi wedi cwblhau'r arolwg, bydd gennych chi syniad o'ch lefel a pha feysydd sy'n 'haws' na'i gilydd. Rydyn ni'n eich annog i ddefnyddio cwestiynau a them u'r arolwg i'ch tywys i gymryd camau cynyddol a llunio cynllun. Efallai gallech chi ddewis un neu ddau o gwestiynau o bob categori i'ch helpu i lunio nodau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

7. Creu cysylltiadau

Er ein bod ni'n strwythuro'r arolwg yn gategorïau, dydyn nhw ddim yn wir ar wah  n i'w gilydd ac mae cysylltiad rhwng y materion mae'r arolwg yn ceisio rhoi sylw iddyn nhw. Er enghraifft,

- Gallai diwrnod gweithredu gwyddoniaeth dinasyddion yn eich mynwent eich taro fel enghraifft o fonitro rhywogaethau yn bennaf (Tir a Byd Natur), ond bydd hefyd yn meithrin cymuned (Cysylltiad Cymunedol a Byd-eang)
- Gallai gwasanaeth arbennig yn ystod Tymor y Cread fod yn enghraifft o Addoliad (Addoli ac Addysgu), ond gallai fod yn gyfle hefyd i rannu gwybodaeth gyda'r gynulleidfa am siop ail-lenwi leol (Ffordd o Fyw).

Gall fod yn ddefnyddiol deall y cysylltiadau o fewn yr arolwg er mwyn ystyried sut gallai camau rydych chi'n eu cymryd gael effaith ar draws gwahanol gategorïau.

8. Cydweithio

Bydd Eco Church yn brofiad mwy cyfoethog ac yn cael effaith ehangach os yw'n cynnwys eraill sy'n gallu bod yn ffynhonnell wych o gefnogaeth ac anogaeth. Defnyddiwch eich cynrychiolwyr Eco lleol o fewn yr enwad neu apostolion Gwyrdd yn adnodd, a chasglwch wybodaeth am y rhwydweithiau sydd ar gael i chi. Archwiliwch dudalennau amgylcheddol gwefan eich enwad i gael rhagor o wybodaeth.

Pwynt pwysig i'w gofio yw nad ydych chi'n gwneud hyn ar eich pen eich hun, gallwch chi ddysgu gan filoedd o eglwysi eraill. Ewch ati i greu cysylltiadau a chasglu cefnogaeth gan eglwysi eraill, a defnyddiwch y [map Eco Church] i estyn allan at Eco Eglwysi gerllaw, yn ogystal   grwpiau a sefydliadau eraill yn eich cymunedau lleol (e.e. Cyfeillion parciau lleol, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, grwpiau gwyrdd yn y cyngor lleol).

9. Defnyddio adnoddau ac offer eraill

Ar wah  n i adnoddau a chanllawiau Eco Church, mae gennym ni hanesion ac enghreifftiau lle gallwch chi ddarllen am brofiadau eglwysi eraill. Ond does gennym ni ddim yr HOLL atebion! Mae cyfoeth o sefydliadau, offer, cynlluniau, prosiectau a ffynonellau gwybodaeth eraill ar gael i chi eu defnyddio. Archwiliwch ein hadnoddau i gael awgrymiadau a dolenni.

10. Dathlu

Ers i Eco Church gychwyn, rydyn ni wedi pwysleisio dathlu dyfarniadau, fel carreg filltir bwysig. Yn yr un modd, rydyn ni'n annog eglwysi i dreulio amser ym myd natur a dathlu'r cread; mae neilltuo amser i fwynhau cread Duw yn fwy na gweithred o addoliad – mae'n gallu ein helpu i greu cysylltiadau dyfnach fydd yn ein sbarduno i weithredu.